Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# **Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Adroddiad Blynyddol 2018-19

Gorffennaf 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA

0300 200 6565

Cysylltu@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

CynulliadCymru

CynulliadCenedlaetholCymru

Senedd



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# **Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Adroddiad Blynyddol 2018-19

Gorffennaf 2019



# Cynnwys

**Rhagair** .......... 6

**Uchafbwyntiau'r flwyddyn** .......... 9

**Ein nodau amrywiaeth a chynhwysiant** .......... 10

**Ein pobl** .......... 12

**Allgymorth, ymgysylltiad a chyfranogiad democrataidd** .......... 27

**Amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith** .......... 40

**Beth nesaf?** .......... 45

# Rhagair

## Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Mae eleni yn nodi ugain mlynedd ers sefydlu’r Cynulliad, adeg ddelfrydol i feddwl am y cynnydd yr ydym wedi'i wneud o ran cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant fel sefydliad seneddol a'r gwaith yr hoffem ei wneud yn y dyfodol.

Eleni, sefydlwyd Senedd Ieuenctid Cymru am y tro cyntaf erioed, sy'n nodedig o ran amrywiaeth ei Haelodau. Mae’r dechrau wedi bod yn addawol wrth i’r Aelodau fynd ati i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc Cymru’n cael eu clywed ac y gweithredir arnynt drwy gyfranogiad democrataidd gweithredol. Rydym hefyd wedi ymgynghori’n helaeth ar gynigion i ddiwygio'r Cynulliad, ac mae’r cyhoedd wedi cymryd rhan weithredol yn y gwaith hwn. Mae gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad yn ehangu o hyd, ac mae’n nodi safbwyntiau cynulleidfaoedd sy’n gynyddol amrywiol.

Hefyd, rydym wedi cynnal adolygiad trylwyr o'n dull sefydliadol ar gyfer recriwtio, gan geisio nodi cyfleoedd i wneud ein harferion recriwtio hyd yn oed yn fwy cynhwysol ac effeithlon. Roeddem hefyd yn falch iawn o gael cydnabyddiaeth barhaus gan Stonewall am ein hymagwedd at gynhwysiant LHDT, Gwobr Aur gan CIPD (Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu) Cymru am Fenter Amrywiaeth a Chynhwysiant, a Gwobr Arian gan Training Journal am y Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant Orau ar gyfer ein Cynllun Prentisiaeth yn 2018.

Mae gennym lawer i'w ddathlu eleni, ond rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ddilyn a chyflawni'r nodau yn ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, a chyflawni ein cyfrifoldebau o ran dyletswyddau'r sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Fel bob amser, rydym yn croesawu eich adborth ar yr adroddiad hwn, ac o ran sut y gallem ystyried gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol.



**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad



**Joyce Watson AC**
Comisiynydd y Cynulliad sy'n gyfrifol am gyflogeion a chydraddoldeb



# Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Gwnaethom sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru, sy'n amrywiol o ran ei haelodaeth, ac eisoes wedi dechrau gweithio ar bynciau y mae wedi'u nodi, gan roi llais democrataidd i bobl ifanc Cymru.

Gwnaethom ennill Gwobr Aur CIPD Cymru 2018 am Fenter Amrywiaeth a Chynhwysiant (Gwneud ein Gweithlu'n Fwy Amrywiol) a Gwobr Arian 2018 gan Training Journal am y Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant Orau a oedd yn cydnabod ein dull cynhwysol o ddylunio a chyflawni ein Cynllun Prentisiaeth yn 2018.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael ei enwi ymhlith y pum cyflogwr gorau ar gyfer staff LHDT yn y DU am y bumed flwyddyn yn olynol. Mae Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle blynyddol diweddaraf Stonewall hefyd wedi cydnabod ein sefydliad fel y cyflogwr gorau yng Nghymru, un o'r cyflogwyr traws-gynhwysol gorau, a sefydliad sy'n Berfformiwr Disglair oherwydd ein bod yn gyson ar frig y Mynegai.

Mae gennym Bolisi Urddas a Pharch newydd sydd â chanllawiau clir ynghylch sut i roi gwybod am unrhyw ymddygiad annerbyniol. Mae cymorth allanol arbenigol ar gael i unrhyw achwynwyr yn ymwneud ag achosion o aflonyddu rhywiol neu ymddygiad rhywiol amhriodol.

Rydym wedi cynnal adolygiad sefydliadol o'n dulliau recriwtio a'u heffeithiolrwydd. Gwnaethom nodi cyfleoedd i addasu ein prosesau, gwella profiad ymgeiswyr, a gwella ein brand fel cyflogwr.

Rydym wedi ailgynllunio pecynnau ein hymgeiswyr i gynnwys: lluniau cynhwysol cyfoes o'n hamgylchedd gwaith a'n pobl; gwybodaeth am ein manteision a'n buddion, ein rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle, a chydnabyddiaeth allanol. Mae canlyniadau ein hymgyrchoedd diweddar wedi dangos cynnydd mewn amrywiaeth, maint ac ansawdd y ceisiadau. .

Helpodd staff i ddatblygu gwerthoedd sefydliadol newydd ac rydym wedi adnewyddu ein Strategaeth Pobl.

# Ein nodau amrywiaeth a chynhwysiant

Mae'n bwysig i ni fod y Cynulliad yn parhau i fod yn hygyrch i bobl Cymru a thu hwnt: gan ei wneud yn berthnasol, yn hawdd ac yn ystyrlon i bobl ryngweithio ag ef a chyfrannu at ei waith. Mae hefyd yn bwysig i ni ein bod yn ymddwyn fel cyflogwr cynhwysol, gan alluogi ein holl staff i wireddu eu potensial llawn.

## Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

Rydym eisiau parhau i fod yn sefydliad sy'n esiampl i eraill o ran rhoi gwerth ar amrywiaeth, hyrwyddo cynhwysiant ac ymgorffori cydraddoldeb, fel cyflogwr ac fel sefydliad seneddol. Ein gweledigaeth yw bod yn sefydliad sy'n hygyrch ac sy'n ymgysylltu â phobl Cymru ac yn eu parchu.

Mae ein gwerthoedd yn diffinio'r ffordd rydym yn gweithio. Rydym yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o bopeth a wnawn;
- herio a cheisio dileu achosion o aflonyddu a gwahaniaethu;
- cydnabod a chwalu rhwystrau rhag cynhwysiant, mynediad a chyfranogiad;
- ymddwyn fel cyflogwr cynhwysol a sefydliad seneddol hygyrch;
- anelu at sicrhau bod ein gweithlu yn gynrychiadol o'n cymdeithas amrywiol, gan gynnwys ar lefel uwch;
- annog ac ehangu cyfranogiad yng ngweithgareddau'r Cynulliad ac ymgysylltiad â'r Cynulliad gan bobl ledled Cymru, a
- hybu agweddau positif tuag at amrywiaeth a chynhwysiant, a meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau gwahanol o bobl.

## Ein blaenoriaethau

Mae ein **Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2016-21** yn nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion a ganlyn:

- Meithrin arweinyddiaeth gynhwysol a diwylliant cynhwysol yn y gweithle. Byddwn yn cyflawni’r amcan hwn drwy sicrhau atebolrwydd ar lefel uwch ac arweinyddiaeth gynhwysol, a thrwy gefnogi a datblygu ein rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle.

- Adeiladu ar ein dull o ddatblygu'r sefydliad. Byddwn yn cyflawni’r amcan hwn drwy ganfod a chwalu rhwystrau rhag cynhwysiant, meincnodi a chydnabyddiaeth allanol, dysgu a datblygu, a pholisïau cynhwysol ar gyfer y gweithle.

- Cynorthwyo Aelodau’r Cynulliad a'u staff i gynnwys amrywiaeth yn eu gwaith. Byddwn yn cyflawni’r amcan hwn drwy eu cynorthwyo i gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant yn eu rolau fel cyflogwyr, fel darparwyr gwasanaeth, ac yn eu gwaith fel gweithwyr achos, crafwyr a deddfwyr, a thrwy ymgysylltu â phobl Cymru.

- Cynorthwyo Staff Comisiwn y Cynulliad i gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant yn eu gwaith. Byddwn yn cyflawni’r amcan hwn drwy wneud penderfyniadau, cynllunio a darparu gwasanaethau mewn modd cynhwysol, a thrwy ystyried amrywiaeth a chynhwysiant wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.

- Ymddwyn fel Cyflogwr Cynhwysol sy'n denu ac yn cadw'r gronfa ehangaf o dalent lle mae pob aelod o staff yn cael cyfle i wireddu ei botensial llawn. Byddwn yn cyflawni’r amcan hwn drwy gefnogi ein gweithlu talentog, cydnabod tangynrychiolaeth a mynd i’r afael â hynny yn ein gweithlu, a chasglu a defnyddio data amrywiaeth i nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

# Ein pobl

Yng Nghomisiwn y Cynulliad, byddwn bob amser yn ymdrechu i fod yn gyflogwr cynhwysol. Rydym am fod yn gyflogwr o ddewis lle mae pobl y tu allan i'n sefydliad eisiau gweithio yma, ac i'r Cynulliad fod yn lle dymunol a deniadol i weithio ynddo. Rydym am fod yn gyflogwr enghreifftiol, ac yn fan lle gall pobl ffynnu mewn amgylchedd diogel a chefnogol.




- 31 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn
- 13 diwrnod o wyliau cyhoeddus a gwyliau braint y flwyddyn



- Codiadau cyflog cynyddol
- Cynllun Pensiwn ‘Principal’ y Gwasanaeth Sifil



- Hawl i wasanaethau iechyd galwedigaethol
- Hawl i Rhaglen Cymorth i Weithwyr
- Rhwydweithiau staff cefnogol



- Polisïau cyfeillgar i deuluoedd, yn cynnwys seibiant gyrfa, gweithio rhan-amser, rhannu swydd, gweithio yn ystod tymor yr ysgol yn unig, absenoldeb arbennig
- Absenoldeb mamolaeth, maeth a mabwysiadu hael, a rhannu absenoldeb rhieni

## Ein gwerthoedd

Ynghyd â'n staff, rydym wedi cynllunio a lansio ein gwerthoedd sefydliadol newydd sy'n dathlu'r ffordd yr ydym yn cydweithio ac yn ein hatgoffa o bwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn sefyll amdano.

Rydym yn eu gweu drwy ein prosesau recriwtio ac yn eu cynnwys fel elfen graidd o'n brand, ein fframwaith cymwyseddau ymddygiadol, a'n strwythurau perfformiad.



**PARCH**
Rydym yn gynhwysol, ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol



**ANGERDD**
Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru



**BALCHDER**
Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm

**UN TÎM** YDYM NI

## Urddas a Pharch

- Rydym wedi ymrwymo i ddarparu diwylliant cynhwysol sy'n rhydd o aflonyddu a disgwyliwn i bawb - gan gynnwys ymwelwyr, Aelodau'r Cynulliad, staff yr Aelodau a staff Comisiwn y Cynulliad, gael eu trin ag urddas a pharch.
- Mae'r Comisiwn wedi gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y Bwrdd Taliadau ac ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol i ddatblygu Polisi Urddas a Pharch, a lansiwyd ym mis Mai 2018. Ym mis Medi 2018 cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ei adroddiad: 'Creu'r Diwylliant Cywir', a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer Comisiwn y Cynulliad.

Rydym wedi mynd i'r afael â holl argymhellion y Pwyllgor a chyflwynwyd nifer o newidiadau a gwelliannau:

- Rydym wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar draws y Comisiwn ac wedi'i ymgorffori fel rhan o'n rhaglenni cynefino a datblygu proffesiynol.
- Trwy gynnal ymarfer siopwyr dirgel, rydym wedi cael sicrwydd bod y tudalennau gwe urddas a pharch yn hawdd eu defnyddio ac yn hygyrch.
- Mae ein Swyddogion Cyswllt yn darparu gwasanaeth pwysig, y gellir ymddiried ynddo, gan ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth emosiynol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr lle bo angen.
- Mae cymorth allanol arbenigol ar gael i unrhyw achwynwyr yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol neu ymddygiad rhywiol amhriodol.
- Cynhelir Arolwg Urddas a Pharch Blynyddol sy'n cynnwys set o gwestiynau ynghylch profiadau ac ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau a'r prosesau cwyno. Rhoddir hwn i Aelodau'r Cynulliad, eu staff a staff y Comisiwn.
- Bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth ymhellach, ochr yn ochr ag adolygiad parhaus o'n polisïau a'n harferion er mwyn sicrhau bod diwylliant o urddas a pharch yn parhau i fod yn rhan annatod ar draws y Cynulliad.

## Strategaeth Pobl 2019-23

Rydym wedi adnewyddu ein Strategaeth Pobl ar gyfer 2019-23Mae'r strategaeth yn nodi sut y byddwn yn datblygu, yn ymgysylltu ac yn gwobrwyo gweithlu ystwyth, sy'n barod i weithio a ffynnu.

Mae'r Strategaeth yn nodi pedwar nod strategol rhyng-gysylltiedig, a fydd yn cefnogi'r gwaith i gyflawni ein blaenoriaethau strategol cyffredinol gan ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau ymhellach. Rydym wedi sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'n **Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant** a strategaethau perthnasol eraill.

## Cynllun Prentisiaeth 2018

Roedd ein gwaith allgymorth yn llwyddiannus iawn a chawsom y nifer fwyaf o geisiadau erioed am gynllun prentisiaeth. Yn ogystal, roedd nifer y ceisiadau a gawsom gan bobl a oedd yn uniaethu fel BAME yn fwy na'r tri chynllun blaenorol ar y cyd, a bron tair gwaith yn fwy na'n cynllun diwethaf.

Yn ogystal â'r cynnydd a welwyd yn nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr BAME, roedd ansawdd y ceisiadau wedi gwella hefyd. Roedd y gweithdai llunio ceisiadau a'r gwaith allgymorth yn llwyddiannus a gwelsom y nifer fwyaf erioed o ymgeiswyr BAME yn symud ymlaen i'r rownd nesaf. O ganlyniad i hynny, gwnaethom gyfweld â mwy o ymgeiswyr BAME nag erioed, ac ar ôl y broses gyfweld, gwnaethom recriwtio mwy o brentisiaid BAME na'r holl gynlluniau blaenorol ar y cyd.

Rydym hefyd wedi gwella ein cydberthnasau â'r gymuned BAME ehangach, ac wedi datblygu partneriaethau tymor hir gydag ysgolion lleol ac ysgolion ledled Cymru gyfan. Mae digwyddiadau allgymorth eisoes wedi'u trefnu er mwyn parhau i adeiladu ar y cydberthnasau hyn ac i helpu i baratoi darpar ymgeiswyr ar gyfer ein cynllun nesaf. Roedd gwelededd ein cynllun prentisiaeth hefyd wedi ein helpu i hyrwyddo'r sefydliad yn ei gyfanrwydd ac fel cyflogwr, ac roedd y cynllun yn cyd-fynd â'r adeg pan gawsom y nifer fwyaf o bobl yn mynd i'n gwefan.

Drwy weithio gyda'r gymuned BAME rydym wedi llwyddo i ddileu rhwystrau a rhoi strwythurau tymor hir ar waith i ddenu ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr yn y dyfodol. Byddwn yn hysbysebu ar gyfer ymgeiswyr newydd ym mis Ionawr 2020.

## Rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle

Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad ein rhwydweithiau cydraddoldeb i'n gweithle a'r cyngor a dealltwriaeth arbenigol y maent yn eu darparu i ni o ran llunio polisïau cynhwysol, hyrwyddo gweithle cynhwysol a'n helpu i wireddu ein huchelgeisiau sydd wedi'u nodi yn ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Cyfrannodd y rhwydweithiau at amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn a oedd yn cynnwys yr uchafbwyntiau a ganlyn:

**MINDFUL** – bu'r aelodau yn codi ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn ynghylch iechyd a llesiant meddyliol, gan helpu i gynllunio Wythnos Llesiant Meddyliol a rhoi taflenni ffeithiau i staff ynghylch sut i reoli llesiant.

**REACH** – treialwyd rhaglen fentora ddwyochrog i alluogi staff BAME iau i ymgysylltu ag uwch staff er mwyn rhannu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth wrth helpu ein huwch arweinwyr i ystyried safbwyntiau newydd drwy ehangu eu dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu ein staff o gefndiroedd amrywiol sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae nifer o'n haelodau staff BAME wedi achub ar y cyfle hwn ac rydym yn adolygu'r rhaglen beilot er mwyn canfod a yw'n effeithlon.



**INSPIRE** – nododd yr aelodau’r angen i gynnal sesiwn ymwybyddiaeth ‘Menopos yn y Gweithle’, a threfnwyd sesiwn lwyddiannus iawn ar gyfer y staff. Trefnodd y rhwydwaith gasgliad elusennol hefyd i helpu’r rhai sy’n rhy dlawd i brynu nwyddau hylendid.



**OUT-NAW** – aeth aelodau'r rhwydwaith i’r orymdaith Pride flynyddol yng Nghaerdydd ac mae wedi rhoi taflenni ffeithiau i’r staff ynglŷn â chynhwysiant pobl LHDT a thraws.



Roedd croestoriad o aelodau'r rhwydwaith hefyd yn rhan o baneli staff fel rhan o’r broses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad, a oedd wedi galluogi amrywiaeth eang o staff o bob lefel a chefndir i gymryd rhan yn y broses.

Yn y dyfodol, byddwn yn ceisio adnewyddu'r rhwydweithiau: drwy nodi rhaglen waith ddangosol ar gyfer yr holl rwydweithiau, nodi cyfleoedd ar gyfer rhagor o gydweithio ac adolygu canllawiau gweithredu.

**MINDFUL**
Ein Rhwydwaith Cefnogi Iechyd Meddwl

**REACH**
Ein Rhwydwaith Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol

**INSPIRE**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i fenywod

**OUT-NAW**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i bobl LGBTQ +

**TEULU**
Ein Rhwydwaith Gofalwyr a Rhieni sy’n Gweithio

**EMBRACE**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i bobl anabl

## Dysgu a datblygu

Mae’r cysyniadau o amrywiaeth a chynhwysiant yn sail i’r gwasanaeth dysgu a datblygu yr ydym yn ei ddarparu. Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi ffurfiol ac anffurfiol i staff Comisiwn y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Rydym hefyd yn darparu cyfres o daflenni ffeithiau, fideos, hyfforddiant ar-lein ac adnoddau eraill i’r rhai nad ydynt yn gallu mynd i’r hyfforddiant neu sydd am ddatblygu eu gwybodaeth yn eu hamser eu hunain.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi darparu amrywiaeth o hyfforddiant sy'n cynnwys y rhestr a ganlyn, ond heb fod yn gyfyngedig iddi: gweithle traws-gynhwysol, llesiant meddyliol i reolwyr, urddas a pharch, cyngor cyn ymddeol, ymwybyddiaeth o’r menopos, dod yn gyfaill traws, herio ymddygiad amhriodol, iechyd meddwl plant, cefnogi cyflogeion sydd â chanser, ymwybyddiaeth o awtistiaeth, ymwybyddiaeth o ddementia a hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod.

## Adolygiad o arferion recriwtio sefydliadol

Yn dilyn ein harchwiliad cynhwysiant o brosesau recriwtio y llynedd – gwnaethom benderfynu cynnal adolygiad cynhwysfawr o’n harferion recriwtio sefydliadol. Yn ogystal ag adolygu ein prosesau, gwnaethom drafod a nodi ffyrdd y gallem leihau unrhyw rwystrau gwirioneddol a chanfyddiadol i greu proses fwy cynhwysol a fyddai’n amrywio ac yn ehangu ein cronfa ymgeiswyr. Y camau nesaf fydd ystyried canfyddiadau'r adolygiad, ymgynghori â staff a gweithredu'r argymhellion fesul cam. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â chaffael a gosod system ceisiadau ar-lein ar gyfer ymgeiswyr (system recriwtio).

## Ehangu cynhwysiant drwy recriwtio

Yn ogystal â'r adolygiad, rydym wedi cymryd camau i adnewyddu'r ffordd yr ydym yn estyn at ddarpar gyflogeion er mwyn denu'r ystod ehangaf o dalent ar gyfer ein cyfleoedd gwaith. Rydym wedi ailgynllunio ein pecynnau ymgeiswyr i gynnwys: lluniau cynhwysol cyfoes o'n hamgylchedd gwaith a'n pobl; gwybodaeth am ein buddion a'n manteision, ein rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle, a chydnabyddiaeth allanol. Rydym yn defnyddio bywgraffiadau byr gan ein staff yn y pecynnau ymgeiswyr i gyfleu’r swydd ei hun a rhoi cipolwg ar ddiwylliant ein gweithle.

Rydym wedi defnyddio’r un dull wrth hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ddefnyddio dyfyniadau gan ein staff i bortreadu’r swydd a denu diddordeb gan amrywiaeth eang o ymgeiswyr posibl. Mae canlyniadau ymgyrchoedd diweddar wedi dangos cynnydd mewn amrywiaeth, maint ac ansawdd ceisiadau. Mae adborth gan reolwyr sy'n recriwtio ac ymgeiswyr wedi bod yn gadarnhaol o ran y pecynnau ymgeiswyr newydd a byddwn yn parhau i addasu ein dull o weithredu yn ôl yr angen.

## Data amrywiaeth o ran y gweithlu, recriwtio a chyflogau

Mae ein data gweithlu a recriwtio a’n hadroddiadau ar gyflog cyfartal a’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu cyhoeddi yn y drefn honno fel dogfennau ategol i'r adroddiad hwn er mwyn sicrhau mynediad rhwydd at y wybodaeth.

Fel y llynedd, mae’r **data gweithlu a recriwtio** yn dangos ein bod yn parhau i ddenu a recriwtio amrywiaeth eang o bobl. Rydym wedi recriwtio pobl o ystod o oedrannau, pobl a chanddynt anableddau, a phobl o hiliau, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol gwahanol. Rydym wedi recriwtio niferoedd tebyg o fenywod a dynion (31 a 38 yn y drefn honno) ond nid ydym wedi recriwtio neb sydd â hunaniaeth wahanol o ran rhywedd na neb sy'n nodi ei fod yn drawsryweddol.

Yn fewnol, er mai nifer gymharol fach o gyfleoedd gwaith mewnol a gafwyd (71 o gyfleoedd); cawsom ymgeiswyr llwyddiannus o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) ac ymgeiswyr a chanddynt anableddau, o grwpiau oedran gwahanol a chanddynt gyfeiriadedd rhywiol gwahanol.

Rydym yn cydnabod yr angen i barhau i weithio ar gynyddu amrywiaeth ein gweithlu er mwyn cynrychioli'n well y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae ein hadolygiad o recriwtio, y pecyn ymgeiswyr newydd, a’r defnydd o’r

cyfryngau cymdeithasol ar gyfer recriwtio wedi ein galluogi i nodi rhagor o gyfleoedd i leihau rhwystrau ac annog ystod amrywiol o ymgeiswyr.

Mae data cyflog cyfartal yn dangos bod y fantais o ran cyflog sydd gan fenywod dros ddynion wedi gostwng o 31.1 y cant i 28.1 y cant (cyflog canolrifol sylfaenol) ac mae wedi gostwng o 29.4 y cant i 21.3 y cant o ran cyfanswm cyflog canolrifol. Mae'r gwahaniaeth yn deillio o nifer o ffactorau: crynodiad uchel o ddynion sy'n gweithio ar raddfa Cymorth Tîm (y Tîm Diogelwch yn bennaf); crynodiad uchel o fenywod sy'n gweithio ar raddfa M-2 (cyfieithwyr i raddau helaeth) sy'n cael lwfans recriwtio a chadw sy'n seiliedig ar sgiliau; a chyfran y menywod sy'n gweithio ar raddfa M1 sydd wedi bod yn gwasanaethu ers cyfnod hwy na'r dynion ar y raddfa honno.

Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau hefyd yn lleihau: Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yw -21.26 y cant (mae'r cyflog arferol ar gyfer 2019 yn fantais o ran cyflog i fenywod). Mae hyn wedi gostwng o -29.39 y llynedd.  Mae hyn, o leiaf yn rhannol, oherwydd cyfartalu hyd gwasanaeth rhwng menywod a dynion, yn enwedig ar lefel M-2. Mae gennym fwy o fenywod o hyd ar raddfa M-1 sydd wedi bod yn gwasanaethu ers cyfnod hwy na'r dynion ar y raddfa honno ond bydd cwtogi ar raddfeydd cyflog sy'n dechrau o 1 Ebrill 2019 yn helpu i ddatrys y mater hwn.

Yn ei Adroddiad ar Graffu ar Gyfrifon yn 2019, argymhellodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad fod *"Comisiwn y Cynulliad yn adeiladu ar y gwaith i ymgysylltu â chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac arwain y ffordd ar draws y sector cyhoeddus drwy gynnwys, yn ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon, ddatgeliad o'r bwlch cyflog ethnigrwydd"*. Ar hyn o bryd, rydym yn cyhoeddi data cyflog cyfartal yng nghyd-destun hil/ethnigrwydd (fel yr ydym wedi'i wneud ar gyfer adroddiadau blynyddol blaenorol). Eleni, yng nghyd-destun cyflog cyfartal, rydym wedi cynnwys gwybodaeth am y gwahaniaeth cyflog ar sail hil: y gwahaniaeth rhwng cyfanswm cyflog cyfwerth ag amser llawn pobl nad ydynt o gefndir BAME a chyfanswm cyflog cyfwerth ag amser llawn pobl o gefndir BAME neu sydd â tharddiad ethnig arall yw 38.9 y cant. Gellir priodoli hyn i nifer y staff BAME sydd ar raddau cyflog is.

Rydym yn aros am ganlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU ynghylch ei dull gweithredu o ran adrodd ar fylchau cyflog sy'n ymwneud ag ethnigrwydd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ionawr 2019, ac nid yw'r amserlen ar gyfer adrodd ar ei ganfyddiadau yn hysbys ar hyn o bryd. Serch hynny, yng nghyd-destun cyflog cyfartal, byddwn yn parhau i gyhoeddi'r gwahaniaeth rhwng cyflogau staff o gefndir BAME a staff nad ydynt o gefndir

BAME, a byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu o ran mynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth BAME yn ein gweithlu a gwahaniaethau cyflog. Yn y cyfamser, rydym wedi defnyddio'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau i gyfrifo ein bwlch cyflog BAME, sy'n 38.9 y cant (yn union yr un peth â'n gwahaniaeth cyflog BAME). Eto, gellir priodoli hyn i'r ffaith nad oes gan staff BAME gynrychiolaeth ddigonol mewn rolau lle gwneir penderfyniadau uwch, yn hytrach na bod staff o gefndir BAME yn cael llai o dâl am wneud yr un swydd.

Rydym yn gweithio tuag at leihau ein bwlch cyflog ymhellach.

## Hyrwyddo cynhwysiant drwy godi ymwybyddiaeth yn fewnol

Mae'r tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r rhwydweithiau gweithle wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o faterion i'n staff, Aelodau'r Cynulliad, eu staff a'r cyhoedd. Mae uchafbwyntiau eleni yn cynnwys: rhwydweithio ar gyfer eich wythnos llesiant meddyliol; cystadleuaeth pobi cacennau ar gyfer elusen; Diwrnod Cofio'r Holocost, Mis Hanes LHDT, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod; Diwrnod Mynediad i'r Anabl; Mis Hanes Pobl Dduon; Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, Urddas a Pharch yn y Cynulliad; Diwrnod Gweledeb Traws, Network Allies ac erthyglau blog gwadd ar gyfer Diwrnod ac Wythnos Ymwybyddiaeth y Byd o Awtistiaeth.

## Wythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant: 9-13 Gorffennaf 2018

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal Wythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n canolbwyntio ar weithgareddau codi ymwybyddiaeth, darparu gwybodaeth yn y gweithle, ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol sydd â ffocws allanol. Eleni, roedd ein digwyddiadau a'n gweithgareddau yn cynnwys y canlynol:

- Gweithdai yn ymwneud â: deall iechyd a llesiant meddyliol i reolwyr; cydraddoldeb yn y gweithle; hyder anabledd; ymwybyddiaeth o ddementia; a rhagfarn ddiarwybod.
- Erthyglau blog mewnol ac allanol a gwybodaeth ar dudalen newyddion y staff ynghylch: pwysigrwydd casglu a monitro data staff; diweddariad ar yr hyn yr ydym wedi'i wneud i hyrwyddo sefydliad cynhwysol i bobl draws ac anneuaidd; rhyngblethiad; y Cynulliad fel cyflogwr Hyderus Anabledd; diweddariad ar yr Adroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant blynyddol a thaflen ffeithiau am gyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, a chrefydd.

## Meincnodi a chydnabyddiaeth allanol

Mesur defnyddiol o'n dull gweithredu ar amrywiaeth a chynhwysiant yw meincnodi yn erbyn sefydliadau allanol ac ymgymryd ag ymarferion achredu. Mae'r rhain yn ein galluogi i nodi lle rydym yn arddangos arfer gorau a lle y gallwn wneud rhagor o welliannau.

Eleni, cyflawnwyd y canlynol:

- Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael ei enwi ymhlith y pum cyflogwr gorau ar gyfer staff LHDT yn y DU am y bumed flwyddyn yn olynol. Mae Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle blynyddol diweddaraf Stonewall hefyd wedi cydnabod ein sefydliad fel y cyflogwr gorau yng Nghymru, un o'r cyflogwyr traws-gynhwysol gorau, a sefydliad sy'n Berfformiwr Disglair oherwydd ein bod yn gyson ar frig y Mynegai. Dywedodd y Llywydd, "Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn falch o gadw ei le yn y pum cyflogwr gorau ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithle Stonewall - am y bumed flwyddyn yn olynol. Mae'n dangos ein bod wedi datblygu a chynnal diwylliant cynhwysol sy'n dangos ymrwymiad y Senedd i gynrychioli holl gymunedau amrywiol Cymru. Rydym yn benderfynol o barhau i wneud y Cynulliad Cenedlaethol yn lle pleserus a gwerth chweil i weithio i bawb, gan ein bod o'r farn bod y sefydliad yn cyflawni mwy gyda gweithlu amrywiol a chynhwysol."

- Gwnaethom ennill Gwobr Aur CIPD Cymru 2018 am Fenter Amrywiaeth a Chynhwysiant (*Gwneud ein Gweithlu'n Fwy Amrywiol*) a Gwobr Arian 2018 gan Training Journal ar gyfer y Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant Orau a oedd yn cydnabod ein dull cynhwysol o gynllunio a chyflawni ein Cynllun Prentisiaeth yn 2018.

- Rydym wedi cael ein cydnabod gan elusen Chwarae Teg ac wedi ennill ei gwobr Meincnod Efydd Cyflogwr Chwarae Teg.

- Gwnaethom gyrraedd rhestr fer Gwobrau PinkNews 2018 ar gyfer gwobr cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Mae'r ffactorau a ganlyn yn parhau i fod yn berthnasol:

- Rydym yn cael ein cydnabod gan Adran Gwaith a Phensiynau'r DU fel cyflogwr Hyderus Anabledd. Mae'r statws hwn yn dangos ein bod yn cydymffurfio â'r arfer gorau o ran recriwtio a chadw pobl anabl.
- Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n ystyriol o deuluoedd, ac rydym wedi cael ein henwi'n un o'r 30 cyflogwr gorau i deuluoedd sy'n gweithio, sydd wedi'i achredu gan y sefydliad Cyflogwyr Gorau i Deuluoedd sy'n Gweithio, sef meincnod arfer da a gaiff ei gydnabod gan y diwydiant yng nghyswllt darparu amgylchedd gweithio sy'n galluogi pobl i gael cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith.
- Rydym wedi ennill Gwobr Awtistiaeth Gyfeillgar gan y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod ein hadeiladau yn hygyrch i ymwelwyr ag awtistiaeth a bod ein staff wedi cael eu hyfforddi i'w croesawu.
- Rydym wedi ymrwymo i Gompact Swyddi Cymunedol Citizens Cymru Wales, sef cynllun sy'n ceisio dod â phobl leol a chyflogwyr at ei gilydd i fynd i'r afael â thlodi, diweithdra a thangynrychiolaeth yn y gweithlu. Mae'r Compact yn annog cyflogwyr i ymrwymo i'r arferion gorau mewn perthynas â chyflog, cyfle cyfartal a diogelwch a datblygu swyddi.

Yn ogystal, rydym wedi ennill y gydnabyddiaeth a ganlyn:

- Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl, cydnabyddiaeth gan y marc rhyngwladol ar gyfer rhagoriaeth fyd-eang.
- Nod siarter Action on Hearing Loss, Yn Uwch na Geiriau, ar gyfer cefnogi staff ac ymwelwyr sy'n fyddar neu sydd wedi colli eu clyw. Rydym hefyd wedi ennill gwobrau Rhagoriaeth Cymru gan Action for Hearing Loss Cymru am wasanaeth rhagorol.
- Rydym wedi cael ein cydnabod fel un o 50 o'r Cyflogwyr Gorau i Fenywod gan The Times / Opportunity Now.
- Yn y dyfodol, byddwn yn cynnal y meincnod Busnes yn y Gymuned ar gyfer hil, rhywedd a llesiant i gefnogi'r amcanion a nodwyd yn ein Strategaeth Pobl.




Stonewall
100 CYFLOGWR GORAU
TOP 100 EMPLOYERS
CYMRU
2019

Stonewall
TOP 100
100 CYFLOGWR GORAU
TOP 100 EMPLOYERS
2019

yn cefnogi
AGE POSI+IVE

Stonewall
CANMOLIAETH
PERFFORMWYR DISGLAIR
STAR PERFORMER
COMMENDATION
2019

Stonewall
PRIF GYFLOGWR
CYNHWYSOLTRAWS
TOP TRANS
INCLUSIVE EMPLOYER
2019

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

teuluoedd sy'n gweithio
newid y ffordd yr ydym yn byw ac yn gweithio

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

LOUDER THAN WORDS

TOP 30 EMPLOYER for Working Families 2018

autism friendly
awtistiaeth gyfeillgar
The National Autistic Society Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru

ACTION ON HEARING LOSS
A national charity since 1911




## Cyd-enillydd Gwobr Cyflawniad Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru

Roeddem yn falch iawn bod Abi Lasebikan, ein Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant, wedi cael ei chydnabod fel cyd-enillydd Gwobr Cymdeithas Cyflawniad Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru (EMWWA) ar gyfer y categori 'Datblygiad Personol'. Mudiad elusennol yw EMWWA sy'n ceisio creu rhwydwaith o fenywod a merched o darddiad ethnig lleiafrifol ledled Cymru i gynnig ysbrydoliaeth ar gyfer y cenhedloedd presennol ac yn y dyfodol.

“O edrych ar safon yr enwebeion, mae cael fy enwebu yn anrhydedd i mi, heb sôn am ennill y wobr.  Mae gwaith EMWWA yn rhoi cyfle i’r rhai sy’n gweithio’n mor ddiflino heb gydnabyddiaeth gael cydnabyddiaeth am eu gwaith a’u hymdrechion. Byddwn yn annog pobl i enwebu eu harweinwyr EMWW, pobl yr hoffent iddynt gael eu cydnabod y flwyddyn nesaf, gan gofio nad yw arweinyddiaeth yn ymwneud â theitlau, safleoedd na siartiau llif. Mae’n ymwneud ag un bywyd yn dylanwadu ar y llall.”

**Chwith:** Assembly colleagues who designed and delivered the Apprenticeship Scheme collect the CIPD Wales Award for Best Diversity and Inclusion Initiative

**Uchod:** Abi Lasebikan, rheolwr amrywiaeth a chynhwysiant, yn derbyn gwobr ar y cyd yn y categori hunan-ddatblygu gan Gymdeithas Cyflawniadau Menywod o Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru

## Cronfa Cydraddoldeb a Mynediad: Cymorth ar gyfer Aelodau’r Cynulliad, eu staff a’u hetholwyr

Mae'r Gronfa Cydraddoldeb a Mynediad yn galluogi Aelodau'r Cynulliad i dalu am dreuliau ychwanegol megis cymorth cyfathrebu ac addasiadau rhesymol. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, defnyddiwyd y gronfa i ddarparu cyfarpar penodol i’r Aelodau a’u staff.

Mae Cymorth Busnes i’r Aelodau bellach hefyd yn gofyn i ddarpar Staff Cymorth Aelodau’r Cynulliad lenwi ffurflen datganiad iechyd yn gofyn iddynt nodi unrhyw ofynion arbennig neu anableddau fel y gallwn roi gwybod i’r nyrs iechyd galwedigaethol sy’n gallu rhoi cyngor ar unrhyw addasiadau rhesymol angenrheidiol i'w cefnogi yn y gweithle.

## Addasiadau yn y gweithle

Drwy ein Strategaeth Llesiant, rydym wedi cefnogi ein staff drwy eu cynorthwyo i reoli salwch cronig ac anableddau gan eu galluogi i barhau i weithio. Yn ystod y cyfnod hwn, mae rhywfaint o'r cymorth yr ydym wedi'i gynnig yn cynnwys cyfarpar ergonomig a chymhorthion cyfathrebu i gydweithwyr.

# Allgymorth, ymgysylltiad a chyfranogiad democrataidd

Un o'n hamcanion parhaus yw ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo gwaith y Cynulliad. Fel corff seneddol, mae'n bwysig bod y Cynulliad yn cynrychioli holl bobl Cymru a bod gan bawb fynediad at ein gwaith, ein hadeiladau a'n gwybodaeth.

## Trosolwg o'r gweithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ymgysylltu â phobl o bob rhan o Gymru, mewn cymunedau ar draws y wlad, ac ar ein hystâd. Yn ystod y cyfnod hwn mae pobl ledled Cymru wedi ymgysylltu â ni drwy weithdai, cyflwyniadau, digwyddiadau a gweithgarwch ymgysylltu sy'n gysylltiedig ag ymgynghoriadau pwyllgorau. Isod, rydym yn dathlu rhywfaint o'n gwaith ymgysylltu ac yn rhannu rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn.

## Sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru

Ym mis Rhagfyr 2018, etholwyd y garfan gyntaf o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru (ASIC) – 40 ohonynt drwy system y cyntaf i'r felin ar gyfer y 40 etholaeth yng Nghymru, ac 20 ohonynt drwy sefydliadau partner swyddogol Senedd Ieuenctid Cymru.

Dewiswyd 13 o sefydliadau gan y Llywydd a'r Comisiynydd Plant i ddod yn bartneriaid swyddogol Senedd Ieuenctid Cymru, yn dilyn proses ymgeisio. Dewiswyd y sefydliadau er mwyn sicrhau bod gan Senedd Ieuenctid Cymru gynrychiolaeth gan grwpiau amrywiol o bobl ifanc o gefndiroedd gwahanol. Mae'r partneriaid yn cynnwys Barnardos, y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, Race Council Cymru, Anabledd Dysgu Cymru, Dwylo'n Dweud a Lleisiau o Ofal.

Mae Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru rhwng 11 a 18 mlwydd oed, ac mae 24 o aelodau gwrywaidd, ac 36 o aelodau benywaidd ymhlith y 60 cynrychiolydd. Ym mis Chwefror 2019, cyfarfu'r 60 Aelod yn y Siambr mewn sesiwn a gadeiriwyd gan y Llywydd Elin Jones AC, i bleidleisio ar eu tri mater blaenoriaeth. Y pynciau a ddewiswyd oedd:

- Cymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl
- Sbwriel a Gwastraff Plastig
- Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm

O'r cychwyn cyntaf, mae ystyriaethau o ran amrywiaeth a chynhwysiant wedi bod yn rhan o'r prosiect, ac mae timau yn y Cynulliad wedi cydweithio'n agos i ddileu rhwystrau i fod yn ymgeisydd mewn etholiad a chyfranogiad, yn ogystal â gweithio gyda sefydliadau partner i sicrhau profiad cynhwysol ar gyfer Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru. Bydd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru hefyd yn llywio unrhyw benderfyniadau o ran amrywiaeth a chynhwysiant yn barhaus.

Yn y dyfodol, bydd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn cyfarfod yn eu rhanbarthau i ddechrau gweithio ar eu tri mater blaenoriaeth.



## Sesiynau Ymgysylltu â'r Gymuned

Cynhaliodd ein Tîm Ymgysylltu â'r Gymuned 35 o Sesiynau Cymunedol ar gyfer 876 o gynrychiolwyr eleni, yn ymwneud ag amrywiaeth o grwpiau a oedd yn cynnwys Mind Cymru, Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru, Canolfan Merched Gogledd Cymru, Gingerbread a Mantell Gwynedd. Mae'r sesiynau hyn yn cyflwyno dinasyddion i waith y Cynulliad - yr hyn a wnawn wrth ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, sut y gall dinasyddion ymgysylltu â'u Haelodau Cynulliad a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau a deisebu.

## Ymwelwyr, teithiau a digwyddiadau

Rydym yn hyrwyddo'r Cynulliad fel atyniad i ymwelwyr drwy gysylltiadau â Grŵp lleol Partneriaid Glannau Bae Caerdydd, cyfryngau cymdeithasol, ein gwaith allgymorth a thrwy Euan's Guide, gwefan o restrau ac adolygiadau sy'n helpu pobl anabl a'u teuluoedd i wybod pa leoliadau sy'n hygyrch.

Rydym wedi gwneud addasiadau i alluogi ymwelwyr i gymryd rhan mewn teithiau drwy addasu cyflymder teithiau a chymhlethdod yr iaith a ddefnyddir.

Rydym wedi cynnal amrywiaeth helaeth o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â chynhwysiant drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys digwyddiadau i nodi: Digwyddiad Baha'ullah; Gwylnos Diwrnod Cofio'r Holocost; Action On Elder Abuse Cymru; Pontio'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru; #IAmEmbolden - Ysbryd B/menywod byddar ac anabl; Anabledd Dysgu a'r Diwydiant Darlledu; Dathlu Cyflawniadau Chwaraewyr Rygbi Du Cymru; Newid yr Anghydbwysedd rhwng y Rhywiau - sut i ddenu mwy o fenywod i faes peirianneg; Cynhadledd Pride Cymru a’r Wythnos Rhyng-ffydd.

> “Yn gyffredinol, byddem yn dweud bod hwn yn un o'r ymweliadau hawsaf, mwyaf pleserus, addysgiadol a diddorol â golygfa ac adeilad nodedig a gawsom erioed. Rydym yn ei argymell i bawb, waeth beth fo’ch diddordeb mewn gwleidyddiaeth, hanes, pensaernïaeth neu unrhyw beth arall a allai wneud i chi feddwl tybed a yw'n werth ymweld. Nid oes dwywaith amdani! Mae'r adeilad yn gwbl hygyrch i bobl anabl; mae ganddo ddrysau awtomatig, toiledau i bobl anabl a lifftiau i ganiatáu mynediad i bobman.”
>
> Adborth gan ymwelydd ar ôl taith o’r Senedd

## Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant

Fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn sefydliad cynhwysol, rydym yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant yn fewnol ac i'r cyhoedd drwy ddigwyddiadau, y cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd. Rydym wedi annog pobl i feddwl am y Cynulliad fel sefydliad cynhwysol, gan eu hannog i gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad ac i ystyried y Cynulliad fel darpar gyflogwr o ddewis.

Dyma rai o uchafbwyntiau ein gwaith hyrwyddo:

### Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2019 - #CydbwyseddErGwell y Rhyl

Mewn partneriaeth â Chanolfan Merched Gogledd Cymru, nododd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod ar 8 Mawrth 2019 - dathliad byd-eang o gyflawniadau menywod - gyda chyfres o siaradwyr gwadd a pherfformiadau yn Theatr Fach y Rhyl. Gwahoddwyd yr anturiaethwr lleol, Steph Jeavons o Hen Golwyn, fel siaradwr gwadd y digwyddiad. Enillodd record y byd am mai hi oedd y person cyntaf i fynd ar gylchdaith o amgylch y ddaear ar feic modur ar draws y saith cyfandir i gyd.

Daeth menywod o bob cwr o Ogledd Cymru fel rhan o'r dathliad ar y dydd i drafod thema Diwrnod Rhyngwladol y Menywod eleni, #CydbwyseddErGwell. Cynhaliwyd trafodaeth banel a gadeiriwyd gan Ann Jones AC, y Dirprwy Lywydd, ynghyd â Poppy Johnson, sylfaenydd Gwobrau Busnes Ifanc Gogledd Cymru a pherchennog Poise Academy, Cerys Furlong, Prif Weithredwr Chwarae Teg, a Mair Stephens, Cadeirydd Pwyllgor Ffederasiynau Sefydliad y Merched yng Nghymru, i rannu eu cyflawniadau, eu hysbrydoliaethau, a'r rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu o ran y gweithle, yr economi, democratiaeth a'r gymdeithas, a sut y gellir eu goresgyn.

Sefydlwyd y Ganolfan yn 2001, ac mae'n gweithredu o ganol tref y Rhyl. Gorllewin y Rhyl yw'r ward sydd yn y safle uchaf yn ôl Mynegai Amddifadedd Cymru, ac mae'r Ganolfan yn gweithio'n galed i gyflawni ei nod o feithrin a gwella datblygiad cymdeithasol ac economaidd menywod yn y gymuned leol. Wrth baratoi ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, hwylusodd y Tîm Ymgysylltu â'r Gymuned sesiynau gydag 71 o ddinasyddion o brosiectau lleol cyn y digwyddiad er mwyn annog cyfranogiad ac ymgysylltiad, ac anogwyd y prosiectau hynny er mwyn arddangos eu gwaith fel rhan o'r cyfleoedd i rwydweithio ar y diwrnod.

Ffurfiwyd pedair partneriaeth i gyd, a oedd yn cynnwys siaradwyr o'r Ganolfan, Wicked Wales, Chwarae Teg a Sefydliad y Merched. Daeth 84 o bobl i'r

digwyddiad - 84 y cant ohonynt nad oeddent erioed wedi ymgysylltu â'r Cynulliad o'r blaen, a 78 y cant a ddywedodd eu bod yn ymddiddori'n fwy yn ein gwaith ar ôl y digwyddiad.

## Mis Hanes Pobl Dduon 2018

Mae Mis Hanes Pobl Dduon yn dathlu, yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r unigolion a'r digwyddiadau ysbrydoledig o fewn cymunedau BAME. Eleni, ochr yn ochr â gweithgarwch codi ymwybyddiaeth mewnol, cynhaliwyd lansiad Mis Hanes Pobl Dduon Cymru Gyfan a Gwobrau Ieuenctid BHM yn adeilad y Pierhead, ac aeth y Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant i'r sioe arddangos i gloi'r digwyddiad yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd. Gwnaeth ein Tîm Cyfathrebu greu podlediad ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon, a oedd yn cynnwys Ali Abdi (Citizens Cymru Wales), Rocio Cifuentes (Cyfarwyddwr Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru) a Vaughan Gething AC, (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) a gafodd ei ail-drydar wedyn ar gyfer Diwrnod Gwrth-hiliaeth y Cenhedloedd Unedig.

## Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anableddau (IDDP) 2018

Gwnaeth Ann Jones AC, y Dirprwy Lywydd, greu blog a blog fideo gwadd ar wefan y Cynulliad i nodi IDDP, gan fynegi safbwynt personol o ran ei phrofiad fel seneddwr anabl a'r hyn y gellir ei wneud i ddileu'r rhwystrau i annog cynulleidfa amrywiol a chynrychioladol i fod yn rhan o fywyd cyhoeddus. Yn ogystal â hyn, trefnodd EMBRACE, ein rhwydwaith anabledd, unwaith eto i'r Senedd gael ei goleuo i ddathlu'r cyfraniad enfawr y mae pobl ag anableddau yn ei wneud at economi Cymru a'r byd - fel rhan o'r ymgyrch Purple Light Up.

## LeadHership

Cymerodd y Dirprwy Lywydd ran yn nigwyddiad LeadHership Chwarae Teg ym mis Mawrth. Mae'r cyfle cysgodi hwn yn rhoi cipolwg i fenywod ifanc ar fywyd cyhoeddus. Roedd y diwrnod yn cynnig amser personol i'r cyfranogwyr gydag Aelodau Cynulliad benywaidd a'u tîm, i gael dealltwriaeth o'r hyn y mae'r rôl yn ei gynnwys. Cymerodd tua ugain o fenywod ran, gydag oedrannau'n amrywio o 16 i 30 oed.

## Twrnamaint rygbi saith bob ochr Enfys

Enillodd tîm rygbi'r Cynulliad dwrnamaint rygbi LHDT-gynhwysol saith bob ochr Enfys ym mis Awst, ac rydym yn llongyfarch y tîm sydd wedi cyfrannu'n helaeth at dwrnameintiau a gemau rygbi LHDT-gynhwysol dros y blynyddoedd.

## Digwyddiad Bocs Llais

Cystadleuaeth jôcs ddwyieithog i blant yw Bocs Llais sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o bleserau cyfathrebu a pham mae hynny’n bwysig. Gwahoddwyd ysgolion cynradd prif ffrwd ac ysgolion arbennig i gyflwyno un jôc o'u hysgol ar gyfer cystadleuaeth 2018 - 2019 ym mis Ebrill. Roedd y Dirprwy Lywydd yn falch o rannu jôc â’r plant a chyflwyno'r wobr fuddugol.  Dyma'r flwyddyn gyntaf i gystadleuaeth Bocs Llais gael ei chynnal yng Nghymru.



## Arddangosfeydd

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o arddangosfeydd ar ystâd y Cynulliad. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- **Arddangosfa Awtistiaeth** - i arddangos doniau gwych oedolion a phlant yng Nghymru sydd ar y sbectrwm Awtistiaeth. Roedd yr arddangosfa yn dathlu Awtistiaeth yng Nghymru a Mis Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd 2018. Roedd amrywiaeth o fathau gwahanol o gelf yn cael eu harddangos, gan gynnwys paentiadau, barddoniaeth a chrochenwaith.

- **Celf Armenia a Chymru:** paentiadau o dirweddau Armenia a Chymru. Arddangosfa a oedd yn dangos y cysylltiad diwylliannol, yn ogystal â'r tebygrwydd gweledol rhwng y ddwy wlad.

- **Enillwyr Cystadleuaeth Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Celfyddydau Creadigol Cymru 2018:** arddangosfa a oedd yn dangos doniau datblygol ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Cafodd yr ymwelwyr gyfle i weld amrywiaeth o brosiectau celfyddyd gain, amlgyfrwng a dylunio creadigol, ac roedd pob darn yn trafod thema hiliaeth a gwrth-hiliaeth yn ein cymdeithas ni a'r cyd-destun byd-eang ehangach.

- **Mis Hanes Pobl Dduon:** fel rhan o'r dathliad i nodi Mis Hanes Pobl Dduon, cynhaliodd y Cynulliad arddangosfa a gyflwynwyd gan Brifysgol Caerdydd a Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru (EYST Cymru). Roedd arddangosfa 'Ieuenctid, Ymfudwyr, Cymry', a guradwyd gan Dîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru (EYST Cymru), yn cofnodi profiadau pobl ifanc o gefndiroedd ymfudwyr sy'n cael eu magu yng Nghymru. Roedd yn edrych ar gysyniadau o berthyn, hunaniaeth, ac a yw 'Cymreictod' yn gysyniad cynhwysol. Nod arall oedd dymchwel camsyniadau ynghylch y term 'ymfudwr', gan sicrhau cyd-destun mwy cadarnhaol i'r gair na'r hyn a welir yn nisgwrs gyfredol y cyfryngau.


- **#ItooamCardiff,** dyma fenter dan arweiniad myfyrwyr sy'n amlygu wynebau a lleisiau myfyrwyr BAME (Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig) ym Mhrifysgol Caerdydd. Lansiwyd yr arddangosfa yn 2016 ac mae wedi bod ar daith ers hynny er mwyn rhoi llais i gymunedau BAME, codi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth.

- **Arddangosfa y mudiad pleidlais i fenywod yng Nghymru:** trosolwg o Fudiadau'r Bleidlais i Fenywod amrywiol a oedd yn gweithredu yng Nghymru ddechrau'r 20fed ganrif, gan gynnwys y Swffragetiaid, yr

Etholfreintwyr (Suffragists) a'r Gynghrair Rhyddid i Fenywod a'u dulliau gweithredu gwahanol. Cymharodd hefyd y sefyllfa bryd hynny â chydraddoldeb rhywiol yng Nghymru heddiw.

- **Mamau yn Affrica:** Yn ôl y Cenhedloedd Unedig, yn 2015 bu farw oddeutu 830 o fenywod bob dydd o achosion cyffredin yn gysylltiedig â beichiogrwydd a geni plentyn, y gellir atal y rhan fwyaf ohonynt. Ar gyfartaledd, mae hynny'n un farwolaeth bob dwy eiliad, ac mae 99 y cant o'r marwolaethau hyn yn digwydd mewn ardaloedd gwledig tlawd lle mae prinder adnoddau a diffyg addysg. Ers 2012, mae Mamau yn Affrica, elusen fach o Gymru, wedi bod yn gweithio gyda gweithwyr gofal iechyd lleol proffesiynol i ddarparu hyfforddiant ac addysg yn Rhanbarth Chongwe yn Sambia. Roedd yr arddangosfa yn cynnwys menywod sydd wedi goroesi geni plentyn, sawl gwaith yn achos llawer ohonynt, a dyma'r merched y mae'r elusen yn gweithio i wella eu dyfodol.

Arddangosfa awtistiaeth yn y Senedd



## Hyrwyddo cynhwysiant y tu hwnt i Gymru

Y Gyngres Ryngwladol o Gawcysau Menywod Seneddol

Aeth Ann Jones AC, y Dirprwy Lywydd, a Joyce Watson AC, Comisiynydd y Cynulliad sy'n gyfrifol am Amrywiaeth a Chynhwysiant, i'r Gyngres Ryngwladol o Gawcysau Menywod Seneddol yng Nghastell Dulyn o 9 i 10 Medi. Y thema oedd 'Ein Gweledigaeth i Fenywod yn 2118'. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys:

- Y cyfryngau cymdeithasol
- Cwotâu rhyw
- Herstory
- Democratiaeth gydgynghorol fel proses
- Effaith cawcysau drwy'r byd
- Senedd sy'n sensitif i rywedd - gwaith sy'n canolbwyntio ar bolisi

Mae'r Cynulliad wedi parhau â chysylltiadau gwaith da â sefydliadau rhyngwladol megis Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, a Sefydliad Democratiaeth San Steffan (WfD) i hyrwyddo llywodraethiant da o fewn democratiaethau sy'n esblygu ac yn datblygu.



Arddangosfa mamau Affrica yn y Senedd

## Ymgysylltu â phobl ifanc

Mae ein tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc wedi hysbysu, cynnwys a grymuso plant a phobl ifanc i ymgysylltu â Busnes y Cynulliad yn ein canolfan addysg fewnol ac mewn ysgolion, colegau a lleoliadau y tu allan i'r ysgol ar hyd a lled Cymru. Gwnaeth y tîm reoli'r etholiad cyntaf ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru yn ystod 2018, a bydd yn cefnogi gwaith y 60 Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru dros y ddwy flynedd nesaf.

Mae'r tîm wedi cyflwyno 684 o sesiynau ac wedi gweithio gyda 162 o grwpiau ieuenctid mewn lleoliadau y tu allan i ysgolion, gan ymgysylltu â rhai grwpiau am y tro cyntaf erioed.  Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae 34,659 o bobl ifanc wedi ymgysylltu â ni yn ystod sesiynau addysgol a drefnwyd.

## Ehangu cyrhaeddiad gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad

Mae Pwyllgorau'r Cynulliad yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn clywed gan yr ystod ehangaf a mwyaf amrywiol o bobl er mwyn llywio eu gwaith. Yn ystod pob ymchwiliad, bydd pwyllgorau yn ystyried pa ddulliau o ymgysylltu ac allgymorth fydd y rhai mwyaf priodol. Mae materion cynhwysiant yn cael eu hystyried fel mater o flaenoriaeth bob amser ar gyfer y rhain. Mae pwyllgorau'n parhau i chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu.  Rydym yn parhau i wneud addasiadau er mwyn sicrhau y gall cyfranogwyr gymryd rhan yn y ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw, boed hynny drwy ddefnyddio fforymau trafod ar-lein, grwpiau ffocws, neu drwy ei wneud yn haws i bobl gyflwyno tystiolaeth mewn lleoliad ffurfiol.

Am y tro cyntaf eleni, bu tri phwyllgor yn cydweithio i gynnal gwaith craffu ffurfiol ar Lywodraeth Cymru.  Cyfarfu'r Pwyllgor Cyllid; y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i graffu ar ddull Llywodraeth Cymru o asesu effaith penderfyniadau cyllidebol. Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar sut mae penderfyniadau cyllidebol yn effeithio ar gydraddoldeb a phlant a phobl ifanc, ac arweiniodd at **adroddiad ar y cyd** a gyhoeddwyd ar yr un pryd gan bob un o'r tri phwyllgor.

### Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Fel rhan o'r ymchwiliad i statws cymhwyster Bagloriaeth Cymru, ymwelodd y Pwyllgor ag ysgolion a cholegau ledled Cymru i glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc o ran eu profiadau o astudio'r cymhwyster. Yn ogystal â hyn, cynhaliodd y

Pwyllgor arolygon ar-lein gydag athrawon a dysgwyr; rhieni a gofalwyr, a sefydliadau addysg uwch.

O ran ymchwiliad y Pwyllgor i Gyllido Ysgolion, gwnaethom gynnal astudiaethau achos gyda thair ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys ymweliadau â'r ysgolion hynny i gwrdd â grwpiau penodol gan gynnwys arweinwyr ysgolion, awdurdodau lleol, llywodraethwyr ysgol a disgyblion. Sefydlodd y Pwyllgor weithgorau gyda rhanddeiliaid arbenigol i helpu i lywio ein hymatebion ffurfiol i ddau o ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru.  Roedd y cyntaf o'r rhain yn ymwneud â'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol statudol, a'r ail yn ymwneud â strategaeth gordewdra'r Llywodraeth, 'Pwysau Iach Cymru Iach'.

Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr a oedd yn edrych ar y ddarpariaeth o ran gwerslyfrau ac adnoddau dysgu disgyblion. Fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethom gymryd tystiolaeth fideo gan ddisgyblion ac athrawon ar gyfer rhan o adroddiad ffurfiol y Pwyllgor.

## Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Ym mis Ionawr 2019, lansiodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ymchwiliad i Gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Mae'r Cynllun yn darparu trefniant cenedlaethol i gynnig consesiwn parcio i bobl anabl, ac fe'i cynhelir ar draws y DU. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y cynllun yng Nghymru, ond fe'i gweinyddir gan awdurdodau lleol unigol, sef yr awdurdodau sy'n darparu'r bathodynnau. Nodwyd anghysondebau yn y dull o weinyddu Cynllun y Bathodyn Glas ar draws Cymru, a oedd yn golygu bod y 22 awdurdod lleol, i bob pwrpas, yn cyflwyno'r Cynllun mewn ffyrdd gwahanol, gan arwain at 'loteri cod post.'

Trefnodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfres o ddeuddeg grŵp ffocws ar draws pob un o bum rhanbarth y Cynulliad gyda 102 o ddeiliaid presennol a chyn-ddeiliaid y bathodyn glas, ymgeiswyr posibl sy'n gwneud cais am fathodyn glas, gofalwyr a staff perthnasol y cyngor er mwyn clywed eu safbwyntiau ynghylch nifer o feysydd gan gynnwys y cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael i bobl sy'n gwneud cais am fathodyn glas yng Nghymru, y gwaith gweithredu ymarferol a chysondeb y Cynllun ar draws Cymru, gan gynnwys asesiadau, ffioedd a mesurau gorfodi.  Gweithiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn agos gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Anabledd Cymru, Age Cymru, Anabledd Dysgu Cymru a'r Gymdeithas MS i ddod o hyd i gyfranogwyr a rannodd eu barn, eu profiadau a'u syniadau ar gyfer yr ymchwiliad.

**http://senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=23651**

## Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Fel rhan o'i ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr, cynhaliodd y Pwyllgor bedwar ar ddeg o grwpiau ffocws drwy gydol yr haf mewn lleoliadau ledled Cymru. Roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys gofalwyr o bob oedran, a chanddynt ystod eang o brofiadau, gan gynnwys gofalu am bobl â dementia, salwch meddwl, canser a strôc. Cafodd y rhai a gymerodd ran gyfle i sôn am eu profiadau o ofalu a'r anawsterau a'r heriau a ddaw o hynny. Cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad bord gron yn dilyn hyn, i edrych ar sut y gallai gwasanaethau gefnogi gofalwyr yn well. I gyd-fynd â'r Diwrnod Gofalwyr Ifanc, gan weithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, hwylusodd y Pwyllgor weithdy a roddodd gyfle i ofalwyr ifanc o bob cwr o Gymru ddod i siarad â'r Pwyllgor am eu profiadau fel gofalwyr ifanc. Roedd y cyfranogwyr yn amrywio o 10 oed hyd at 17 oed, ac fe'u cefnogwyd gan oedolion ifanc sy'n ofalwyr.

Fel rhan o'i waith craffu ar y Bil Awtistiaeth (Cymru), roedd y Pwyllgor yn awyddus i siarad â phobl ag anhwylder sbectrwm awtistig (ASD) a'u teuluoedd am yr heriau y maent yn eu hwynebu. Cynaliasom gyfres o grwpiau ffocws ledled Cymru i gasglu barn a phrofiadau croestoriad o bobl. Trefnwyd sesiynau drwy sefydliadau sy'n cefnogi oedolion ag anhwylder sbectrwm awtistig a'u teuluoedd, yn ogystal â thrwy grwpiau cymorth lleol. Cynhaliwyd deg sesiwn ar draws Cymru, a chymerodd 95 o bobl ran. Bu aelodau'r Pwyllgor hefyd yn ymweld â Siop Un Stop Sbectrwm Awtistiaeth Cysylltiadau Cymru yng Nghaerdydd er mwyn siarad â defnyddwyr gwasanaethau, a chynhaliwyd trafodaethau bord gron ag aelodau teuluoedd pobl sydd ag anhwylder sbectrwm awtistig.

## Y Pwyllgor Deisebau

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried deisebau sy'n cwmpasu ystod o bynciau cynhwysol gan gynnwys iechyd meddwl, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, tai diogel i blant, addoli crefyddol mewn ysgolion, cymorth i ddynion sy'n dioddef trais yn y cartref, mannau cyhoeddus hygyrch, cyllid addysg ar gyfer grwpiau BAME a cheiswyr lloches, hyfforddiant anabledd dysgu i staff y GIG, pensaernïaeth elyniaethus, cynhyrchion hylendid am ddim, a chyfleusterau newid cewynnau.

Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar ddeiseb **P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb**, a gyflwynwyd gan Deffo!, fforwm i bobl ifanc fyddar. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru o ran sut y gellid darparu cymorth ychwanegol i blant byddar a thrwm eu clyw a'u teuluoedd. Gwnaethom gyhoeddi'r adroddiad mewn Iaith Arwyddion Prydain a chynhyrchu

fersiwn gryno.  Trafodwyd yr adroddiad gan y Cynulliad ym mis Chwefror 2019 a darparwyd gwasanaeth Iaith Arwyddion Prydain yn yr oriel gyhoeddus ac ar-lein.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cyhoeddi adroddiad ar ddyfodol Grant Byw'n Annibynnol Cymru, ac mae'n cymryd tystiolaeth ar ddeiseb sy'n galw am arddangos sgoriau hygyrchedd yn glir mewn adeiladau sy'n agored i'r cyhoedd.

## Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i wasanaethau cyhoeddus ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal (sydd wedi, neu sydd wrthi'n 'derbyn gofal' gan awdurdod lleol o dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014) o fewn ei gylch gwaith o ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Daeth pum person ifanc i siarad ag Aelodau'r Cynulliad yn ystod un o gyfarfodydd preifat y Pwyllgor yn y Senedd a gynhaliwyd yn anffurfiol er mwyn sicrhau y byddai'r bobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel wrth siarad am eu profiadau o ofal. Cyn hynny, cyfarfu'r bobl ifanc ag Aelodau'r Pwyllgor yn ystafell de'r Aelodau, gyda lluniaeth, i'w galluogi i siarad â'r Aelodau yn bersonol mewn amgylchedd tawel.

Cynhaliwyd sesiynau eraill ledled Cymru yn Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe ac ar Ynys Môn gyda phobl ifanc rhwng 6 a 25 oed o bob awdurdod lleol bron yng Nghymru. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd yn ogystal â'r rhai sydd wedi gadael y system ofal yn ddiweddar. Mewn rhai o'r sesiynau, roedd y bobl ifanc yn cael eu cefnogi gan eu gweithwyr cymdeithasol a gofalwr maeth, a fynegodd eu barn hefyd. At ei gilydd, cyflwynodd deg ar hugain o blant a phobl ifanc dystiolaeth.  Gwnaeth y dull hwn ganiatáu i ni gofnodi lleisiau'r plant a'r bobl Ifanc, gan roi cipolwg ar safbwyntiau a phrofiadau gwirioneddol o'r system ofal, a chyfeiriwyd at y rhain yn gyson yn adroddiad y Pwyllgor. Roedd fformat yr adroddiad yn cynnwys ffeithlun o'r 'hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym' ac roedd yn cynnwys nifer o ddyfyniadau uniongyrchol o'r dystiolaeth a glywsom.  Coladwyd y canfyddiadau hyn hefyd mewn fideo Sparks pwerus.

# Amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith

Rydym yn cefnogi staff Comisiwn y Cynulliad i gynnwys amrywiaeth a chynhwysiant yn eu gwaith er mwyn sicrhau bod penderfyniadau, trefniadau cynllunio a darparu gwasanaethau, a mynediad i'n hystadau yn gynhwysol, a thrwy sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hystyried wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.

Rydym hefyd yn cefnogi Aelodau'r Cynulliad i ystyried amrywiaeth a chynhwysiant yn eu rolau fel cyflogwyr, fel darparwyr gwasanaeth, ac yn eu gwaith fel gweithwyr achos, crafwyr a deddfwyr, a thrwy ymgysylltu â phobl Cymru.

## Biliau anllywodraethol

Cyflwynwyd dau fil anllywodraethol eleni: Bil Awtistiaeth (Cymru) a'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru). Cyflwynwyd Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd â phob un, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiadau o'r Effaith Ieithyddol. Yn dilyn yr arfer gorau, nod yr asesiadau effaith oedd gwerthuso effeithiau'r Biliau ar yr holl grwpiau o bobl, nid y rhai yr effeithir arnynt yn gadarnhaol yn unig. Er enghraifft, ystyriwyd effaith y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) ar blant a phobl ifanc na fydd ganddynt yr hawl i bleidleisio - yn ogystal â'r rhai a fydd â'r hawl - a'r mesurau lliniaru sydd ar waith o ran hynny.

Mae gwaith craffu yn cael ei wneud ar egwyddorion cyffredinol y Bil Senedd ac Etholiadau ar hyn o bryd gan bwyllgorau'r Cynulliad, gan gynnwys y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Os caiff y ddeddfwriaeth ei phasio, byddai'n gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad i 16. Nodir ystod o fanteision posibl yn sgil y newid hwn ym Memorandwm Esboniadol y Bil, gan gynnwys:

- cryfhau atebolrwydd democrataidd, trwy alluogi rhan ehangach o'r gymuned i gael rôl uniongyrchol yn etholiadau'r Cynulliad;
- galluogi mwy o ymgysylltiad o ran pleidleisio dros y tymor hwy (ar y sail y gallai profiad cynharach o bleidleisio annog unigolion i barhau i wneud hynny);

- byddai'n anghyson pe na fyddai'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng i 16 oed ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, pe byddai Llywodraeth Cymru yn penderfynu deddfu i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol Cymru.

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad ymgynghoriad ynghylch *Creu Senedd i Gymru*, a oedd yn cynnwys fersiwn hawdd ei darllen o'r ymgynghoriad. Yn yr un modd, cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei darllen o'r adroddiad ar yr ymgynghoriad i gyd-fynd â'r ymgynghoriad ynghylch *Creu Senedd i Gymru*, er mwyn galluogi ystod ehangach o bobl i gymryd rhan yn y broses.

## Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac ystyried cydraddoldeb yn ein gwaith

Rydym yn parhau i ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel rhan o'n gwaith parhaus, wrth ddatblygu polisïau, gwasanaethau a gwneud newidiadau i'n hystâd. Er enghraifft, mae'r tîm dadansoddi busnes wedi gweithio i ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb mewn mentrau gwella busnes ar draws y Cynulliad drwy wneud y canlynol:

- Cynghori timau prosiect ar yr angen i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu cynnwys mewn dogfennau gofynion wrth ddatblygu prosiectau newydd; ac
- Ystyried anghenion yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â newid a sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli.

## Ystâd hygyrch

Rydym yn adolygu hygyrchedd ein hystâd yn rheolaidd, gan gynnal archwiliadau cynnal a chadw misol, yn ogystal â gweithredu ar adborth a mabwysiadu'r arfer gorau. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi gwneud rhagor o waith i wella hygyrchedd ffisegol ein hystâd, gan gynnwys:

- gosod arwyddion allanol o amgylch y Senedd i dynnu sylw at lwybrau hygyrch i'r adeilad;
- ystyried gofynion mynediad ar gyfer yr holl waith adnewyddu a wnaed a chwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ôl yr angen;

- ailosod drysau awtomatig y brif fynedfa i'r Senedd a'r Neuadd;
- parhau â'r rhaglen o osod goleuadau LED i wella gweleded yn y Senedd ac ardaloedd eraill ar draws yr ystâd, gan gynnwys gosod goleuadau LED ar ganopi allanol y Senedd;
- ailwampio lifftiau'r prif atriwm yn Nhŷ Hywel, gan gynnwys goleuadau LED newydd, arwyddion newydd, gan gynnwys braille, a lleisiau cyhoeddi newydd sy'n cyhoeddi pan fo'r lifft yn cyrraedd, neu'n mynd heibio i bob llawr; ac
- archwiliad allanol a gynhaliwyd ynghylch y gwasanaeth dolen sain a ddarperir mewn ystafelloedd cyfarfod a mannau cyffredin drwy'r holl ystâd, gan weithredu'r argymhellion.

## Caffael

Rydym yn manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb drwy ein proses gaffael a'r broses barhaus o reoli contractau. Caiff cydraddoldeb ei gynnwys fel rhan o'n hasesiadau o risg cynaliadwyedd ar ddechrau'r broses gaffael. Mae hefyd yn rhan o'n hymarfer cyn-gymhwyso ar gyfer cyflenwyr. Ni chaiff cyflenwyr sy'n methu â dangos eu hymrwymiad i gydraddoldeb eu gwahodd i dendro. Ar ôl dyfarnu contract, rydym yn cynnal cyfarfodydd adolygu contract rheolaidd â'n cyflenwyr. Un o'r eitemau safonol ar yr agenda yw cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Mae gennym hefyd gymalau cydraddoldeb yn ein telerau ac amodau.

Rydym yn gyflogwr cyflog byw achrededig ac yn sicrhau bod y cyflog byw yn cael ei dalu i'n contractwyr mewnol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau arferion cyflogaeth teg a thryloyw drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan. O ganlyniad i hynny, rydym yn ceisio gweithio gyda'n cyflenwyr i fonitro a sicrhau arferion cyflogaeth teg a, chan weithredu'n rhesymol, rydym yn cadw'r hawl i ofyn am newidiadau i unrhyw un o'r arferion hynny yr ydym o'r farn eu bod yn annheg.

## Ymchwil a gwybodaeth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

Ymgorfforir materion cydraddoldeb a hawliau dynol yn y gwaith ymchwil a dadansoddi a roddir i gefnogi Aelodau'r Cynulliad a'r pwyllgorau yn eu gwaith. Roedd gweithgareddau'r flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Cyhoeddi postiadau blog yn rheolaidd ar ystod eang o faterion cydraddoldeb fel: effaith Brexit ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng

Nghymru, materion anabledd, cydraddoldeb rhwng y rhywiau, gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth, polisi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, homoffobia, trawsffobia a deuffobia, pobl hŷn, hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol, a phleidleisio drwy ddirprwy mewn achosion o absenoldeb rhiant yn Nhŷ'r Cyffredin;

- Diweddaru dangosyddion cydraddoldeb rhywiol i Gymru am y drydedd flwyddyn, a darparu sylwebaeth i helpu'r Aelodau i graffu ar bolisïau, deddfwriaeth a chyllidebau o safbwynt rhywedd. Cyhoeddwyd hyn i gyd-fynd â dadl yn y Cynulliad ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod;
- darparu awgrymiadau ar gyfer cwestiynau ar gydraddoldeb i bob pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft;
- Sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei integreiddio wrth ddrafftio cylch gorchwyl awgrymedig ar gyfer ymchwiliadau pwyllgorau (fel ymchwiliadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith, ac amrywiaeth ym maes llywodraeth leol, ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i wella iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, ac ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i atal hunanladdiad; ac
- Arwain yr ymchwiliad cydamserol arloesol gan y Pwyllgor CLlLCh, y Pwyllgor PPIA a'r Pwyllgor Cyllid i graffu ar ddull Llywodraeth Cymru o asesu effaith ei chyllideb ar gydraddoldeb a hawliau dynol.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Yn ystod y flwyddyn, mae nifer o Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth wedi manteisio ar gyfleoedd datblygu i'w helpu i fod yn hysbys wrth ymdrin â materion sy'n peri pryder i'w hetholwyr, i fynd i'r afael â sefyllfaoedd heriol wrth gyflawni eu dyletswyddau, neu i sicrhau eu bod yn rheoli eu staff yn dda.

Roedd y gweithgareddau'n cynnwys: Rheoli Gwaith Achos, Rhagfarn Ddiarwybod, Atal Hunanladdiad, Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, Iaith Arwyddion Prydain, Ymdrin â Sefyllfaoedd Heriol, Meithrin Cydnerthedd Personol, ac Urddas a Pharch yn y Gweithle.

## Y Bwrdd Taliadau

Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i waith y Bwrdd. Mae'r bwrdd yn ystyried effaith ei holl benderfyniadau ar y nodweddion gwarchodedig ym mhob cam o'r broses.

Mae'r Bwrdd Taliadau eisoes wedi ymrwymo i sicrhau'r ffordd orau o annog yr amrywiaeth ehangaf bosibl o ymgeiswyr i sefyll etholiad yng Nghymru. Felly, gwnaeth y Bwrdd gomisiynu Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd i gynnal ymchwil ar ran y Bwrdd i nodi'r rhwystrau a'r cymhellion i bobl sydd am sefyll etholiad yng Nghymru. Nododd yr adroddiad, "Dadansoddi Amrywiaeth", nifer o rwystrau y gallai ymgeiswyr posibl eu hwynebu wrth ystyried a ydynt am sefyll yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Bwrdd yn ystyried argymhellion yr adroddiad wrth iddo weithio tuag at lunio Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad. Yn ogystal, mae'r Bwrdd eisoes wedi dechrau gweithio gyda sefydliadau tebyg eraill i fynd i'r afael â rhai o'r materion y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad. Mae'r Bwrdd Taliadau yn credu, drwy gydweithio i gefnogi unigolion o'r amrywiaeth ehangaf bosibl o gefndiroedd i sefyll yn etholiadau'r Cynulliad, y bydd gallu'r sefydliad i gyflawni dros bobl a chymunedau Cymru yn cael ei wella.

# Beth nesaf?

Camau gweithredu ar gyfer 2019-20

- Gweithredu canfyddiadau ein hadolygiad recriwtio a pharhau i wella profiad ymgeiswyr, ehangu mynediad i'n cyfleoedd, a chynyddu'r amrywiaeth o ymgeiswyr.
- Cynnal y meincnod Busnes yn y Gymuned ar gyfer hil, rhyw a llesiant, yn ogystal â gweithgareddau meincnodi a chydnabod eraill.
- Adnewyddu ein rhwydweithiau yn y gweithle drwy adolygu'r canllawiau gweithredu a'r rhaglen ddangosol o'r gwaith, gan geisio annog rhagor o gydweithio rhwng y rhwydweithiau.
- Cynllunio a gweithredu Cynllun Prentisiaeth cynhwysol arall ar gyfer 2020 sy'n denu'r ystod ehangaf o dalent.
- Parhau i weithio tuag at leihau ymhellach ein bylchau cyflog a nodwyd.
- Sicrhau bod Senedd Ieuenctid Cymru yn parhau i fod yn gynhwysol ac yn annog mynediad i bawb gyfrannu.
- Adnewyddu ein posteri Urddas a Pharch newydd a gweithredu ymgyrch i sicrhau nad yw cydweithwyr yn cadw'n dawel pan fyddant yn gweld mathau gwahanol o ymddygiad amhriodol.